

# *Llais y Llan Ebrill 2018*

## Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Mai 2018

**Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf**

**Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau, 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa**

Noson Stêc y Rheilfford pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

**Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Gwener, 11.30 – 12.30, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830**

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr

Merched y Wawr Trydydd Nos llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa

Ebrill 11 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 15 Dydd Sul Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Ebrill 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Ebril 18 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Ebrill 18 Nos Fercher 8.00 CCB LCIE Neuadd Goffa

Ebrill 23 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 28 Dydd Sadwrn 10.00 Glanhau a chomopo'r Pentref, Neuadd Goffa

Mai 5 Dydd Sadwrn 10.00 Cerdded Pwllgwaelod

Mai 7 Dydd Llyn Skanda Vale Cerdded

Mai 8 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mai 9 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mai 12 Dydd Sadwrn 2.00 "Fun Day"

Mai 15 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd



# Village Voice April 2018

## Copy Date for next Edition 24th May 2018

**Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange**
**www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY**

**What's on in the Village – please put these dates in your diary**

Every Monday and Thursday from 4 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall
Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.
Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643
Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall
Every Friday 11.30 – 12.30 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830
Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr
Every Friday 11.15 – 12.15 Post Office Van Bronwydd Village Hall Carpark
Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall
April 11 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book
April 15 Sunday Allotment tidy-up – all welocme
April 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
April 18 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall
April 18 Wednesday 8.00 AGM LCIE (Village Voice) in Memorial Hall
April 23 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Club Bronwydd Hall
April 25 Wednesday 8.00 AGM Welfare and Recreation Association, Memorial Hall
April 28 Saturday 10.00 Village Clean Up, meet at Memorial Hall
May 5 Saturday 10.00 Walk Newport Parrog to Pwllgwaelod
May 7 Monday Sponsored Walks Skanda Vale
May 8 Tuesday 8.00 Community Council Agm and Meeting Memorial Hall
May 9 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

May 12 Saturday 2.00 Fun Day in Playing Field, then 7.30 Jerry Allan in the Memorial Hall
May 15 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
May 28 Monday Cadair Idris walk Skanda Vale
May 30 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall
June 2 Saturday Sheep dog trial, Llwynbedw Farm
June 2 Saturday Walk Llyn y Fan Fach
June 5 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
June 10 Sunday 12.00 – 4.00 Open Farm Sunday Esgair
June 12 Tuesday 8.00 AGM Memorial Hall Trustees, Memorial Hall
June 13 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book
June 19 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
June 21 Thursday 6.00 Walk to the 5 Pools
September 22 Saturday 10 – 12 Macmillan Coffee Morning
October 13 Saturday Meat Loaf at Memorial Hall

***Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524***

Mabli and Taryn – World Scout Jamboree



Canada Geese enjoying a wet Easter Monday!



**Llanpumsaint Community Information Exchange – AGM**

The group that publish Village Voice every 2 months and run the Village Website www.llanpumsaint.org.uk, will be holding the AGM at 8.00 on Wednesday 18th April in the Village Hall. We are a small committee, and we would welcome some new faces to help us with the production and delivery of Village Voice every 2 months and managing the website. And if you can help with translation that would reduce the workload on our current translators, and be much appreciated. Please come and support us – you will be very welcome.

If you want any more information, please giver me a ring on 01267253308, Carolyn Smethurst, Chair.

**Sheep Dog Trial Saturday 2nd June 2018**

Spectators welcome to come along and see a Sheep Dog Trial at Llwynbedw Farm, Llanpumsaint. An all day event from 8am. Situated off the Skanda Vale road, just follow the orange signs (SDT). No admission charge. Catering available from Siop Steve Shop. David Hume

Mai 29 Dyyd Llun Cerdded Cadair Idris – Skanda Vale

Mai 30 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mehefin 2 Dydd Sadwrn Treialon Cwn Defaid Llwynbedw

Mehefin 2 Dydd Sadwrn Cerdded Llyn y Fan fach

Mehefin 5 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mehefin 10 Dydd Sul 12.00 – 4.00 Sul y Fferm Agored – Esgair

Mehefin 12 Nos Fawrth 8.00 CCB Ymddiriedolwyr Pwyllgor Neuadd Llanpumsaint a FFynnonhenri

Mehefin 13 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 21 Nos Iau 6.00 Cerdded Llanpumsaint

Medi 22 Dydd Sadwrn Macmillan Bore Coffi

Hydref 13 Nod Sadwrn 'Meat Loaf' Neuadd Goffa

**I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524**

Gwyddau au nWyliau!



Mabil a Taryn - Jambori Scowteid y Byd



**Glanhau a chomopo'r Pentref – nawr ar Ebrill 28ain am 10 y.b.**

Gohiriwyd y casglu sbwriel a drefnwyd am Fawrth 5ed oherwydd yr eira a'r oerni. Byddai'n amhosib gweld dim ac mi fyddem wedi sythu wrthi. Felly adrefnwyd y glanhau a chomopo i ddydd Sadwrn 28ain o Ebrill am 10 o'r gloch. Pawb i gwrdd ym maes parcio'r Neuadd - mwya' i gyd ddaw mwya' i gyd o sbwriel geith eu casglu. Byddwn yn dosbarthu dillad gweladwy, bagiau du a'r ffyn casglu. Cofiwch ddod a menig eich hunan er hynny ac unrhyw offer arall sydd gennych.
Byddwn yn dosbarthu gwirfoddolwyr i wahanol ardaloedd yn ddibynnol a faint ddaw ar y dydd. Gobeithio y byddwn yn gallu cynnwys ardaloedd brwnt fel Rhiw Graig, y ffordd tua Skanda Vale. A'r hewl mas heibio'r Bryn i Benrhewlgam. Ni fydd raid i chi gario'r bagie 'nol i'r Neuadd oherwydd byddwn yn teithio o amgylch i' casglu. Croeso i bob oed ond gofynnwn i blant dan 16 fod yng ngofal oedolyn. Yn y gorffennol amrywiodd yr oed o 3 i 80.
Os nad ydych yn gallu dod ar y dydd ceisiwch lanhau eich ardal o flaen llaw - cysylltwch â mi ac mi gewch eich offer. Mwy o wybodaeth oddi wrth 01267 253308 neu info@gwilimill.com <mailto:info@gwilimill.com> Carolyn Smethurst

**Cerddwyr Llanpumsaint**
Trefnwyd teithiau arbennig felly dewch i ymuno a ni! Rydym yn griw eitha' cymdeithasol gyda'r sgwrsio a'r golygfeydd mor bwysig â'r cerdded.
Ar y 5ed o Fai cerddwn o Drefdraeth i Bwllgwaelod ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro. Dal y bws, Poppet Rocket yn Pwllgwaelod, Dinas Cross am 10.16 i Parrog, i gyrraedd yno m 11.16, yna cerdded yn ôl tua Chwm yr Eglwys gyda dewis o fynd yn syth i Bwllgwaelod neu gynnwys golygfeydd godidog Pen Dinas. Bydd y blodau allan ac mi fydd yr adar yn nytho ar y creigiau. Mi allem gael cinio hwyr yn Nhafarn Pwll Gwaelod. Rhowch wybod os am ddod er mwyn i fi drefnu trafnidiaeth. Carolyn 253308 neu info@gwilimill.com <mailto:info@gwilimill.com>
Dydd Sadwrn 2ail o Fehefin bwriadwn gerdded o amgylch Llyn y Fan Fach. Mae'r rhan gyntaf tua 5 cilomedr yn hawdd, a gellwch eistedd ger y Llyn i fwyta a mwynhau sŵn yr ehedydd. Eith ein taith wedyn yn anoddach wrth i ni ddringo uwchben y ddau lyn am tua 12 cilomedr i gyd. Mae'n daith trwy'r dydd! Gellwch edrych ar ein gwefan er mwyn derbyn y trefniadau terfynol.
Dydd Iau 21ain o Fehefin - Ein taith flynyddol, bellach yn draddodiad i Byllau'r Saint yng Nghwm cerwyn Llanpumsaint. Cwrdd ger Maes Parcio'r Neuadd am 6 o'r gloch yr hwyr. Cerddwn dros y Cae Chwarae a lan yr hewl i Cwpers. Gyda chaniatâd y perchennog tir cerddwn lan yr afon Cerwyn, bydd angen wellingtons a ffon arnoch oherwydd y cerrig llithrig. Wrth gyrraedd y rhaeadr ewch heibio'r pyllau sanctaidd lle deiau pawb ar y diwrnod hwn un amser i gael iachâd. Ganrifoedd yn ôl deuai cannoedd yma.

**Chwilota/n Ebrill**
Dyma'r amser am y garlleg gwyllt a Jac-y gwrych. A lle gore am arlleg gwyllt yw ar y llwybr bach sy'n arwain o Fae Scott ger Llansteffan heibio i Ffynnon Sant Antwn. Man ffrwythlon arall yw'r goedwig ger Green Castle ar ochr yn afon. Torrwch y dail a'r gwreiddiau lan mewn cawl neu lobscows neu eu hychwanegu gyda chig mochyn a ffa, am wledd flasus. I adnabod Jac-y - gwrych rhowch ger eich trwyn i'w arogli. Tyfa'n gyflym iawn i ryw ddwy droedfedd tua diwedd Ebrill, gyda'r dail melyn yn gyferbyniad amlwg i'r blodau gwyn. Mae'r dail yn arogli fel garlleg felly ei enw garlleg -y- gwrych , ac mae eu hychwanegu mewn salad yn cyfoethogi'r blas. Mewn rhai ardaloedd ychwanegwyd dail dant--y - llew i'r salad i gyfoethogi'r Gwanwyn ar ôl y gaeaf noeth. Yn Ffrainc rhoddwyd nhw gyda bacwn mewn dresin, mae'r bacwn yn lleddfu'r blas chwerw.
Os ewch i lan y môr neu'r arfordir yn Ebrill byddwch yng nghwmni Llwylys Cyffredin. Mae ganddo ddail trwchus gwyrdd tywyll ac yn tyfu allan o welydd caregog neu gloddiau. Blaswch e'! Dyma'r' planhigyn wnaeth arbed sawl morwr o'r scyrfi, sef diffyg Fitamin C yn y dyddiau a fu. Ond bydd deilen neu ddwy'n hen ddigon oherwydd mae'n blasu'n gryf fel Jeyes Fluid. Er hynny mae'n llawn h Fitamin C a haearn, ac wedi chwarae'i ran yn hanes mordeithio.
Ann Petitt 28ain Mawrth

**Cyfnewidfa Gwybodaeth Llanpumsaint - Cyfarfod Cyffredinol**
Bydd y Pwyllgor sy'n rhedeg Llais y Llan ac yn cyfarfod bob yn ail fis, yn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Nos Fercher Ebrill 18fed yn y Neuadd Goffa. Pwyllgor bychan i ni ac mi fyddem yn croesawu wynebau newydd er mwyn cyhoeddi a dosbarthu Llais y Llan bob yn ail fis. Hefyd cynnal y wefan - www.llanpumsaint.org.uk <http://www.llanpumsaint.org.uk>. Os ydych yn gallu cyfieithu byddai hynny'n ysgafnhau'r baich ar ein cyfieithwyr presennol ac yn dderbyniol hefyd. Dewch i gefnogi bydd yna groeso!
Mwy o wybodaeth oddi wrth Carolyn Smethurst - Cadeirydd - 01267 253308

**Llanpumsaint 100 Club -** The March and April will take place at the Welfare and Recreation Association's Annual General Meeting at 8.00pm on 25th April. There are still numbers available if you have yet to renew Your membership, or if you want to join for the first time. Mermbership costs £12 p.a. Derick Lock Treasurer 253524

**Head to Toes Footcare**
New clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to cancel (at least 24hrs notice, please)

**LLANPUMSAINT AND FFYNNONHENRY MEMORIAL HALL TRUSTEES**
Please note in your Diary that the Hall AGM is to take place on Tuesday, 12th. June at 8p.m. sharp. All are welcome to attend.

**STOP PRESS - NOTE FOR YOUR DIARY**
The Hall Trustees are pleased to announce that following popular demand MEATLOAF has been booked for their annual Tribute Night on Saturday, 13th. October. More details later in the year. Derick Lock, Secretary.

**WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION AGM WEDNESDAY 25th April**
The Memorial Hall has been booked for the Association's Annual General Meeting commencing at 8pm sharp. All are welcome to attend.
Any motion for consideration at the A.G.M. must be in writing, properly proposed and seconded, and lodged with the Association's Secretary, Derick Lock, Maes Y Felin, Llanpumsaint SA33 6BY(tel. 01267 253524) no later than Wednesday, 18th April.

**Clwbgwili 60+ Club Bronwydd**
The Club celebrated St David`s Day on the 26th February with over 80 members present. The Hall was decorated by some of the committee members and the Cawl was made by Mr and Mrs Glyn Evans, Elderado, Bronwydd. Refreshments to follow the "Cawl" was provided by club members. Mr Peter Hughes Griffiths was the speaker for the afternoon and everyone thoroughly enjoyed the afternoon. This month we have Mrs Jane Hanwell talking to us about "Dementia" Our Club meetings are always held on the fourth Monday of every month at 2pm. New members are always welcome. Membership is £5 per year.
Our day trips this year are as follows, all on Wednesdays:
May 2 - Tredegar House followed by afternoon tea at The Celtic Manor
June 13 - Wye Valley Cruise then going on to Monmouth calling at White Hart Llandeilo for evening meal.
July 11 - Dyfed Shire Horse Farm, Eglwyswrw moving on to Nantyffin, Clynderwen for evening meal.
August 22 - The Thomas Shop Museum Penybont, Llandrindod Wells and finishing off at The Metraploe Hotel for afternoon tea before returning home.
Full details of all above trips can be obtained from Val Giles Club Secretary 01267 281194

**Open Farm Sunday**
Hundreds of farms all over the UK will open their gates for Open Farm Sunday 2018 on 10th June. As the farming industries annual open day, it offers a fantastic chance for people to discover farming first hand and see for themselves how their food is produced. It is also a great way for farmers to shine a light on what they deliver and why supporting British farming matters.
Esgair is taking part in this event again this year. New for this year is a self-guided nature trail. Open between 12noon and 4pm call in to see what we do and how we produce our beef boxes and sausage packs. Entry is free but if you would like to donate to Cancer Research there will be an opportunity to do so. Just follow the signs from the village. A warm welcome and a cuppa awaits. For more info www.farmsunday.org. or Nicky Dickenson, Esgair, Llanpumsaint, SA33 6JU,

**Wanted: logs for log-burning stove.** Happy to clear any fallen trees or branches - Tel: 01267 253993

**World Scout Jamboree**

Hi - we are Mabli (age 14) from LLanpumsaint and Taryn (age 15) from Bronwydd. We have both been members of the Scout Association since we were six and have spent over a hundred nights camping. We also took part in planning the Great Get-together in Carmarthen which was a big event that saw people from many different communities, religions and nationalities come together to enjoy a day in each- others company in memory of M.P Jo Cox. We are members of Merlin's Explorer Scout unit Carmarthen, and we have recently been selected to represent Wales at the next World Scout Jamboree which will take place in North America in 2019.

The event will see over forty thousand young people aged 14-17 from around the world meet together to develop friendships and to further international understanding and co-operation. This is a unique international adventure where we hope to develop personally, and to help to develop cross cultural and international understanding in our communities on our return.

In order to attend this event we need to raise £3,495 each, part of this fee will be used to enable scouts from underdeveloped countries to go to the jamboree.

Some of you will have seen Mabli when she went round Bronwydd and Llanpumsaint on New Year's Day collecting Calennig money to help her to get to the jamboree. A huge thank you to everyone who donated. You will probably see us doing many more fund-raising activities in the villages in the next few months; any support you could give us or ideas for further fundraising will be greatly appreciated.

You can contact us at j_gaynor@hotmail.com Mabli and Taryn

## CLWB CRICED BRONWYDD CRICKET CLUB

We are looking for people to join our scoring team. We score the majority of our matches using laptops equipped with the latest cricket scoring programs. Full training will be given.

Give me a call to answer any questions you may have.

John Homer, 01267237082, johnbhomer@btopenworld.com

**Village Clean-up now on 28th April 10.00am**

The litter pick arranged for March 5th was cancelled – snow on the ground hiding the litter and it was very cold. We would just not have been able to see the rubbish!

The clean-up will now be done on Saturday 28th April from 10.00am. Meet at the Village Hall carpark – the more who join us the more areas we can clear. We will provide hi-viz vests, black bags and the rings to hold the bags, and litter pickers. Please bring your own gloves, and any of the above equipment if you have them. We welcome all ages, but children under 16 need to be accompanied by an adult – in the past we have had ages from 3 – 80!

We will allocate areas to litter pick depending on how many arrive to clean up on the day. Hopefully we will include the real black spots like the Graig, the roads up to Skanda Vale, and the roads from the A485. And you don't have to carry the black bags back to the hall – we will drive round to collect them as you fill them. If you can't make it on the day, please clean-up in your area before the day – let me know and I will let you have the equipment so that you can do your bit.

Carolyn Smethurst

If you want any more information, please contact me on 01267 253308, or info@gwilimill.com.

**Police News -** I am available on 101 or via email martin.dickenson@dyfed-powys-.pnn.police.uk

**GWYNFRYN -** House for Sale in Llanpumsaint. Four/ five bed house, two bathrooms, ample parking and very close to the pub. Please contact Louise on 07810 254853 or 01267 253105

**Clwb Chwedeg Gwili**
Daeth dros bedwar ugain aelod i ddathlu Gŵyl Dewi ar y 26ain o Chwefror. Addurnwyd y Neuadd gan aelodau, ac fel arfer Glyn a Maureen Ifans Eldorado fu'n gyfrifol am y cawl, gyda aelodau eraill yn trefnu lluniaeth ychwanegol. Mwynhaodd pawb ein siaradwr gwadd, sef Mr Peter Hughes Griffiths. Bydd Mrs Jane Hanwell yn dod i siarad â ni am Ddementia'r mis hwn. Cynhelir ein cyfarfodydd ar y pedwerydd Dydd Llun bob mis am 2' o'r gloch yn Neuadd Bronwydd. £5 y flwyddyn yw'r Aelodaeth.

Tripiau un dydd eleni -
Dydd Mercher 2ail Mai - Tŷ Tredegar ac yna Te yn y Celtic Manor
Dydd Mercher 13eg Mehefin - Taith ar yr Afon Gwy ac yna i Dref Mynyw i orffen gyda swper yn yr Hudd Gwyn Llandeilo.
Dydd Mercher 13eg Gorffennaf - Fferm Geffylau Sirol yn Eglwyswrw ac yna ymlaen i Nantyffin Clunderwen am swper.
Dydd Mercher 22ain Awst - Amgueddfa'R Siop Thomas , Pen-y-bont Llandrindod. Yna ymlaen i Westy'r Metropole am De cyn dychwelyd.
Gellir cael gwybodaeth bellach am y teithiau yma oddi wrth Val Giles 01267 281194.

**Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint**
Mae garddio'n gallu bod yn boenus! Yn union wrth i'r tymor hau gyrraedd dyma'r tywydd yn troi'n hynod o oer, felly bu raid rhoi'r holl hadau yn ôl ar y sil ffenest.
Mi soniais o'r blaen am bobol enwog oedd yn arddwyr brwdfrydig. Er na allaf dyngu hynny dywedwyd wrthyf am Syr Walter Scott ysgrifenni llyfr ar arddio. Drwy anffawd ei gyhoeddwyr daeth mas fel Ivanhoe yn lle I've a Hoe. Mi gychwynnodd Geiriadur Amgen Y Garddwr i ddehongli enwau - megis - Cyclamen - Ffrancwyr ar gefn beic; Elderberry - Het yr henoed.
Rhaid pwysleisio fan hyn i ran fwyaf o'r aelodau fod yn bobol gall, wnaeth fynychu ein Cyfarfod Blynyddol ar y 25ain o Chwefror. Ffarweliwyd a rhai a chroesawyd eraill. Diolchwyd hefyd i'r rhai wnaeth lanhau a chomopo'r lle'r llynedd, a hefyd am ddatblygu ein cyflenwad dwr er mwyn ein gwneud yn llai dibynnol ar ffynhonnell y Bwrdd Dwr.
Bydd yna sesiwn o lanhau a chomopo eleni eto ar Ddydd Sul 15fed o Ebrill am hanner awr wedi deg y bore. Felly dyma eich cyfle i ymweld â ni, felly croeso!
Lleoliad y Rhandir yw hen safle'r Orsaf Drenau a'r Co-op gerllaw Tafarn y Railwe. Ymholiadau i Keith 253375 neu Ray 253157.

**Treialon Cwn Defaid – Sadwrn 2ail Mehefin 2018**
Croeso i ymwelwyr i Fferm Llwynbedw am y Treialon. Byddwn yn cychwyn am wyth o'r gloch y bore i barhau am y dydd. Heibio Fferm Y Felin tua Skanda Vale a dilynwch yr arwyddion oren (STD). Dim tal mynediad a lluniaeth ar gael gan Siop Steve. David Hume

***Sul Y Fferm Agored***
Bydd cannoedd o ffermydd ledled y wlad yn agor eu gate ar Ddydd Sul Y Fferm Agored, sef 10fed Mehefin 2018. Dyma'r diwrnod blynyddol i bobl ymweld er mwyn dysgu am y byd amaethyddol. Mae'n gyfle hefyd i'r ffermwr arddangos pwysigrwydd estyn cymorth i'r diwydiant. Mae Fferm yr Esgair yn cymerid rhan unwaith eto eleni. Bydd yno lwybr natur newydd gellir ei ddilyn rhwng canol dydd a phedwar o'r gloch y prynhawn, a bydd yno bacedi cig a selsig ar werth. Mynediad am ddim ond os dewiswch gyfrannu at Elusen Cancr yna gore gyd. Dilynwch yr arwyddion o'r pentref er mwyn cyrraedd y cwpaned a'r croeso. Gwybodaeth bellach o www.farmsunday.org <http://www.farmsunday.Org> neu Nicky Dickenson, Esgair,Llanpumsaint sa336hj 07866311740.

**Clwb Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo**
Gyda'r tymor yn prysur ddod i ben dwy gêm gynghrair sydd bellach ar ôl, sef erbyn Llangennech a Llandyfaelog B. Cawsom fuddugoliaeth arbennig o dda erbyn Alma, 8-0 ar ein tir ein hunain. Yna wedi'r Pasg edrychwn ymlaen yn awchus i'r ddwy gêm erbyn Bronwydd, am Gwpan Coffa Roy Bowen.
Llongyfarchwn Aled Edwards, ddewiswyd yn un o Sgwad Ugain Cymru, fydd yn teithio i Swaden am Gystadleuaeth Bowlio Dan-Do y Byd ym mis Mawrth. Croeso cynnes hefyd i Huw Williams, newydd ymuno a ni, sy'n argoeli i fod yn chwaraewr o safon. Croeso hefyd i unrhyw un arall sydd am brofi gem hynod o gymdeithasol, lle mae hyfforddwyr profiadol ar gael i hybu eich diddordeb. Daw manylion pellach oddi wrth ein Cadeirydd, Alan Dentry 01267 253549 ne'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474.

**Clafdy Skanda Vale**
Eleni penderfynwyd bod ychydig yn wahanol. Bydd mwy o awch i'r teithiau cerdded noddedig y Pasg pan awn am dair taith unigol ger y môr, ac yna un fynyddig yng ngogledd Cymru. Ar 7fed o Fai cynhelir tair Taith Gerdded, un o 3 milltir, a dwy yn 8 milltir gydag un ohonynt yn galetach na'r llall. Dewiswch yr un sy'n eich siwtio -
Taith 1 – Yn weddol hawdd ar y cyfan – cychwyn yn Pwllgwaelod i ddilyn Llwybr yr Arfordir o amgylch Pen Dinas.
Taith 2 -- 8 milltir galetach - Llwybr yr Arfordir eto o Drefdraeth i Geibwr.
Taith 3 -- Weddol galed - O Bwllgwaelod amgylchynu Pen Dinas ac ymlaen i orffen yn Nhrefdraeth.
28ain o Fai - Mynydd Cader Idris - Taith gylch o 6 awr i'r rhai sydd am fentro. Ar hyd Llwybr Minffordd i fwynhau golygfeydd godidog ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Byddwn yn cynnig trafnidiaeth i bawb o Skanda Vale neu'r Clafdy, yr holl ffordd yno ac yn ôl, gyda chinio hefyd. Mae'n dipyn o her felly gofynnwn i bobl anelu at godi tua £250.
Mwy o wybodaeth am y teithiau, cofrestri a noddi oddi wrth sister.ally@skandavale.org <mailto:sister.ally@skandavale.org> neu drwy alw 01559 371222

**Diwrnod Hwyl y Pentref – Sadwrn 12 Mai**
Bydd y gweithgareddau'n dechrau gyda thwrnamaint pêl droed i'r plant wedi ei drefnu gan Banthers Peniel am 2 o'r gloch. O hanner awr wedi dau ymlaen bydd y Pwyllgor Lles yn Rhostio'r Mochyn gyda'r holl gymadawe, Yr Eglwys yn cynnig Te a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol yn paratoi Cwn Poeth a diodydd. Dyle neb starfo!
Os am brynu hwyaden cyn i'r Ras Capel Nebo gychwyn am 3 o'r gloch cysylltwch â Meinir Jones ar 253532. Gobeithio hefyd fydd y Gymdeithas Rhandir yn gallu gwerthu llysiau. O hanner awr wedi saith yr hwyr mae Ymddiriedolwyr y Neuadd wedi bwcio cerddoriaeth gan Jerry Allen a bydd Steve yno i'ch bwydo. Tocynnau yn £6 y pen, ond £1 yn unig i'r rhai dan ddeunaw oed, i'w cael oddiwrth Derek Lock 253524 ar ôl Ebrill 12fed
Nodyn Gwybodaeth - Mae Ymddiriedolwyr y Neuadd wedi gofyn caniataid y Cyngor Sir i gau'r heol o ganol dydd hyd 7 yr hwyr. Bydd hyn yn effeithiol o Bantycelyn heibio'r Ficerdy, Tŷ Coeden Ywen, Dolwerdd a'r Neuadd ei hunan.

**Grwp Cerdded Llanpumsaint Walkers Group**

We have arranged some spectacular walks for you – please come and join us. We are a very sociable group, and the conversation and the views are as important as the walking.

On May 5th May, we will walk from Newport Parrog to Pwllgwaelod along the Pembrokeshire Coast Path, catching the bus Poppit Rocket at Pwllgwaelod, Dinas Cross at 10.16, to Parrog, getting there at 11.16, to walk back along the coast path to Cwm y Eglwys, and either going straight on through the valley to Pwllgqwaelod, or for the more active, they can include the spectacular Dinas Head. There will be the lovely cliffside flowers, and lots of birds nesting on the cliffs. We could have a late lunch at the Old Sailor when we get back to Pwllgwaelod. Let me know if you intend coming, and we can share transport – Carolyn 01267253308 or info@gwilimill.com

For Saturday 2nd June – we are planning to walk around Llyn y Fan Fach – the first part of the walk is suitable for all, about 5 km, then you can sit by the lake to have lunch and listen to the skylarks. The walk then becomes more strenuous as we climb up to the ridge overlooking the 2 lakes, about 12 km in total and will take all day. Final arrangements will be on our facebook site – just look for Llanpumsaint Walkers.

June 21st, Thursday – our walk to the 5 pools in Llanpumsaint, a walk that is becoming a tradition. We will meet at the Village Hall carpark at 6.00pm, walk across the playing field then up the main road to Coopers. We then walk through private land with the kind agreement of the landowner, and walk up the River Cerwyn – you will need your wellies and a stick as the stones in the river bed can be slippery. As we reach the waterfall, you find the 5 pools where it is said the 5 saints from which the Village gets its name used to bathe. Over the past centuries many pilgrims used to come to Llanpumsaint to walk up the river for its healing properties!

**April Foraging**

The big stories are wild garlic and Jack-by-the-hedge. Wild garlic, best place I know is Llansteffan, the lane up past St. Anthony's well Scotts Bay (the pink house to you and me), (or Green Castle Woods, estuary side). Leaves, bulbs, chopped up in soup, cawl, stew, belly pork, lentils, beans, everything. Big flavour. How to recognise its emerald, broad strappy leaves? Just smell.

Jack -by-the-hedge. He jumps up like his name in late April, all along the banks. He's two foot tall in no time, with big, slightly floppy, heart-shaped leaves in a gorgeous shade of the freshest spring green. These make a stunning contrast to the creamy white fine flower clusters, borne on side stalks and with a neat dainty cluster at the top. The big crinkly leaves have a delicate, but distinct, taste of garlic - hence another of many names, "hedge garlic". Add them to give spice, lift and a touch of the wild, to your packaged salad leaves.

And also wood sorrel. This lovely woodland beauty has bright green 3 cornered leaves, like a small clover, and a delicate small nodding white flower. The leaves taste of sharp lemon.

Dandelion leaves have been eaten as a salad in rural areas for as long as people have looked around for them in spring, to welcome fresh green things after the long winter. In France they rather cleverly combine them with crispy bits of bacon, and a sharp lemon or vinegar dressing. They are bitter, but the bacon helps!

If you are out along the coast in April you'll never be far from scurvy-grass. Not like grass at all, the plant which bustles out of the walls and banks along any coast path, has thick fleshy round deep green leaves, the size of a 1p. coin. It can't be mistaken for anything else, so give it a try, just for the experience. This is the stuff that saved our poor press-ganged teenage sailor lads in the days of Nelson, from dying of vitamin C deficiency (scurvy). You would have to be in dire straits to munch more than a leaf or two as it tastes like I imagine Jeyes fluid might. But it is packed with vitamin C and iron. And naval history. Ann Pettitt, 28 March.

**Llanpumsaint Allotment Association**

The joys of gardening. Just when the sowing season is upon us (and I don't mean darning the holes in your socks!) the weather threw a curved ball in March and the seedlings end back inside on the window sill.

In previous articles I have alluded that some well known individuals were keen gardeners and it has now come to my attention, although unverified, that Sir Walter Scott also wrote a gardening book that was unfortunately lost due to his publisher erroneously affording its title in 1820 to one of his historical romance novels - "I've an hoe" - or Ivanhoe as they misspelt it. It is also thought he started a Gardeners Alternative Dictionary that gave a whole new slant on plant names/ meanings, such as Cyclamen meaning French blokes on bicycles, or Elderberry meaning a senior citizen's hat.

I must emphasise at this point that the vast majority of Association members are sane, many of which attended the AGM on 25th February when we sadly bade farewell to some members but also welcomed others. Thanks were also given to those members who last year helped tidy up the site and to those who worked throughout the last year to greatly enhance our rainwater storage capability and so reducing our dependence on mains water.

A site tidy up day is to be held again this year at 10.30am on Sunday 15th April and any one who wishes to come to have a look around the allotment site then will be more than welcome (we will not put you to work!). We are located in the old station yard opposite the Railway Inn and any enquiries can be directed to Keith (tel: 253375) or Ray (tel: 253157) .

**LLANPUMSAINT & NEBO SHORT MAT BOWLING CLUB**

We are now approaching the last few weeks of our bowling season with 2 league matches against Llangennech and Llandyfaelog B left to play. Our last match was an excellent 8-0 win against Alma at home. The Club will also play Bronwydd home and away after Easter for the Roy Bowen Memorial Cup, matches that both Clubs look forward to every season.

Our congratulations go to Aled Edwards who was chosen as part of a 20 strong Welsh Team to take part in the World Short Mat Bowls Championships in Sweden in March.

The Club would like to extend a warm welcome to Huw Williams who has joined the Club and has already proved that he has the potential to be a very good player. Anyone else who wishes to try this very sociable sport for themselves are very welcome; we have qualified coaches on hand to support and encourage players. For further information please phone our Chair Alan Dentry (01267) 253549 or our Secretary Jill Edwards on (01267) 253474

**VILLAGE FUN DAY - SATURDAY 12th MAY**

The afternoon will start off at 2p.m. with a Junior Football Tournament organised by Peniel Panthers F.C.

From 2.30p.m. Welfare will be running a Hog Roast with all the trimmings, the Church will be serving hot drinks and the School P.T.A. hot dogs and cold drinks.

At 3p.m. the Nebo Chapel Duck Race will start, to buy a Duck contact Meinir Jones on 253532.

It is also hoped that the Allotment Society will have a Stand selling home grown small veg plants for you to plant.

In the evening from 7.30p.m. the Hall Trustees have booked Jerry Allan and his music to entertain us and Steve Evans will be there with his hot food. Tickets for the evening are £6 for adults and £1 for under 18's. A Bar will also be available.

Tickets will be available from the 10th. April from Derick Lock on 253524 - a good time for all is guaranteed.

**Information note to All** - The Hall Trustees have applied to Carmarthenshire County Council for a Temporary Road Closure Order to take effect from Noon until 7p.m. on Saturday, 12th. May, the Village Fun Day. The road will be closed between Pantycelyn, past the New Vicarage, Ty Coeden Ywen,

**Clwb Cant Llanpumsaint**

Tynnir enillwyr Mawrth ag Ebrill yng nghyfarfod Blynyddol y Pwyllgor Lles ac Adloniant ar 25 ain o Ebrill. Os am ymuno eleni mae yna gyfleoedd ar ôl o hyd am £12 oddiwrth Derek Lock

**Pwyllgor Lles ac Adloniant**

Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cychwyn yn brydlon am 8 o'r gloch gyda chroeso i bawb. Dylai unrhyw Gynnig i'w osod ger bron fod yn nwylo'r Ysgrifennydd erbyn 18fed o Ebrill gydag enwau'r priodol. Derek Lock Maes y Felin sa336by 01267 253524.

**Ymddiriedolwyr Pwyllgor Neuadd Llanpumsaint a Ffynnonhenri**

Nodwch ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Nos Fawrth 12fed o Fehefin am 8 o'r gloch yn brydlon. Croeso!

**Canolfan Ailgylchu'r Neuadd Goffa**

Fel yr eglurwyd eisoes mae yna gytundeb rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Cyngor Sir i gynnal gwasanaeth ailgylchu papur, gwydr a chaniau ar safle'r Neuadd. Rhaid i ni gadw golwg ar gyflwr y biniau, ysbwriel, fandaliaeth a thipio anghyfreithlon. Dylai unrhyw flerwch ddod i sylw Derek Lock yr Ysgrifennydd 253524

**Goleuadau Traffig ar yr A484 ger Pante**

Isod ceir datganiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar y mater. Mae'n debygol y bydd y goleuadau yno am beth amser tra eu bod yn ystyried y ffordd orau ymlaen. Hefyd pan eir ati i'w hatgyweirio bydd yn rhaid cau'r ffordd, felly rhaid cynllunio ffyrdd osgoi orau. Pen tost!

***(Crynodeb o'r Datganiad) .......****gosodwyd y Goleuadau ar 4dd o Ebrill 2017 yn dilyn tirlithriad o'r wal gynhaliol......mae'r broblem llawer mwy na hynny ac yn ymestyn am200 medr.......Mae'r Cyngor yn ystyried gwelliannau ond yn gwneud arolwg llawn o'r holl ardal....Yn wreiddiol bu'n fwriad i greu darn newydd o heol ond wedi derbyn canlyniadau arolwg deallir y byddai hynny'n golygu cau'r A484 am gyfnod hir.......ar hyn o bryd edrychir ar ddewis arall sef creu darn newydd i ffwrdd o'r rhan sy'n ddiffygiol.......Mae yna lawer o waith ymchwiliol i'w wneud eto ynghyd ac amcangyfri' holl gostau'r fenter... Felly amhosib rhoi amcan am ba hyd fydd y Goleuadau yno.....*

**Eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog a Chelynin, Bronwydd.**
Diolch am eich cefnogaeth. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod yr Eglwys yn cynnig cymorth i'r holl gymuned ac yn cenhadu i arwain pobl at Grist. Ceisiwn fod yn adnodd i bawb boed yn Gristionogion neu beidio.
Er bod yr eglwys yn fwy nag sefydliad, mae gennym dri adeilad sy'n annwyl i nifer. Maent yn annwyl oherwydd i chi gael eich priodi yno efallai, neu i'ch teulu fod yn gorwedd yn y fynwent. Gobeithio hefyd y teimlwch i'r gymuned Gristnogol yn groesawgar.
Mae gan y tair eglwys raglen lawn o weithgareddau. Maent yn amrywio o grwpiau trafod y Beibl a digwyddiadau cymdeithasol ar wahân i'r gwasanaethau Sul. Ceisiwn gyrraedd y gymuned drwy fentrau fel y gwasanaeth Holocaust ac ymweliadau a'r Ysgol leol. Er bod y niferoedd ar y Sul yn mynd yn llai mae ein gweinidogaeth yn ffynnu. Mae hyn oll yn costio rhaid i mi dynnu sylw at hynny.
Fe gostia tua £33 y dydd i gadw drysau'n heglwysi ar agor, ac nid yw cyfraniadau ar blât na gweithgareddau codi arian yn ddigonol. Felly bydd cynnal yr adeiladau a'r weinidogaeth yn gofyn am fwy. Gwn i nifer ohonoch roi'n hael o'ch amser ac yn ariannol ac rydym yn ddiolchgar am hynny. Os nad ydych yn mynychu'r gwasanaethau a fyddech yn barod i gyfrannu'n rheolaidd drwy wneud Archeb Banc, ac mae modd osgoi'r dreth ar hynny hefyd.
Gweddïwch dros ein heglwysi a chofiwch eiriau'r 2 Corinthaidd 9:7
*"Pob un megis y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded; nid yn \athrist, neu trwy gymell: canys rhiddwr llawen y mae Duw yn ei garu."*
Yr eiddoch – Y Parch Gaynor 01267 253158 i_gaynor@hotmail.com
Dilynwch ni ar Facebook - Eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog, Bronwydd
Cysylltwch â'r Parch Gaynor am wybodaeth gwasanaethau a digwyddiadau.

**Jambori Scowteid y Byd**
